AMGUEDDFA CYMRU

# Stori Weledol

## Taith i Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru




# Stori Weledol

Canllaw Gweledol yw hwn ar gyfer grwpiau addysg sydd am ymweld.


Mae'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i bawb, gan gynnwys pobl ag anghenion arbennig.



# Symbolau yn y canllaw


Dyma'r symbol sy'n dangos lle llawn arogl cryf.


Dyma'r symbol sy'n dangos lle swnllyd.



Dyma'r symbol sy'n dangos fod y golau'n newid.


Dyma'r symbol sy'n dangos ble allwch chi gyffwrdd pethau.

1. Derbynfa a Siop
2. Ystafelloedd aros
3. Man aros Job-A-Mas
4. Taith danddaearol/Pen Pwll
5. Cylch y dramiau/Lamprwm
6. Melin lifio a Melin mortar
7. Tŷ'r weindar
8. Brenin Glo: Y Profiad Cloddio
9. Tŷ'r Ffan
10. Arddangosfeydd y baddondai/ Ystafell Addysg
11. Cantîn
12. Ystafell ginio
13. Gwylfan
14. Storfa ffrwydron
15. Iard yr efail
16. Pwll Chwarae
17. Caffi
18. Ystafell adnoddau/Ymholidau
19. Gweithdy cadwraeth

T. Toiledau

Amgueddfa ddiwydiannol yw Big Pit, ac felly mae synau uchel i'w clywed drwy'r safle, o dan ddaear ac yn yr adeiladau.




Llwybr hygyrch
Grisiau

# Pwy fyddwch chi'n eu cyfarfod?

**1 - Byti'r Arth**

**2 - Tywyswyr Glofa**

**3 - Staff y Dderbynfa**

**4 - Y Tîm Addysg**

**Sylwer:**

Yn ystod eich ymweliad, efallai na fyddwch yn cwrdd â'r un bobl union fel y dangosir yn y lluniau hyn.












# Cyfleusterau Big Pit

## Toiledau

## Bwyd a Diod

## Ystafelloedd Addysg

Dilynwch y dolenni i ddysgu mwy

# Os ydych chi'n cyrraedd mewn bws

**Mae lle parcio AM DDIM i fysiau a bysiau mini gyferbyn â'r Brif Fynedfa.**



# Y Brif Fynedfa


Pan fyddwch chi'n cyrraedd Big Pit, ewch i'r Brif Fynedfa.



# Y Dderbynfa


Bydd ein staff cyfeillgar yn dangos y ffordd i chi.

Bydd amserlen gan arweinydd eich grŵp.



# Cyrraedd yr Ystafell Aros

Gallwch chi gyrraedd yr Ystafell Aros drwy ddringo'r grisiau yn yr adeilad, neu'r ramp y tu allan.



# Ystafell Aros y Daith Danddaear

Dyma ble fydd un o'n Tywyswyr Glofa yn cyfarfod â chi cyn mynd ar y Daith Danddaear.



Gall yr Ystafell Aros fod yn brysur iawn weithiau.



# Offer y Glöwr

Dyma lle bydd ein tywyswyr yn rhoi offer diogelwch i chi cyn mynd ar y Daith Danddaear.

- Helmed a lamp (gallwch chi addasu i ffitio).
- Belt gyda phecyn batri a hunan-achubwr.

Gall y rhain deimlo'n drwm. Bydd y Tywysydd Glofa yn gwneud yn siŵr eich bod chi'n gyfforddus.



# Loceri Contraband

**Mae rhai eitemau yn beryglus i'w cymryd danddaear. Contraband yw'r enw ar eitemau fel hyn.**

**Mae'r rhain yn cynnwys:**

- oriorau
- ffonau symudol
- camerâu
- sigaréts/e-sigaréts
- matsys/tanwyr



# Y Cawell i fynd danddaear

Bydd un Tywysydd Glofa yn mynd â 15 person danddaear ar y tro.

Mae'r Cawell yn disgyn tua 2 fetr bob eiliad ac yn cymryd 90 eiliad i gyrraedd Gwaelod y Pwll.



# Y Daith Danddaear

Ar ôl cyrraedd Gwaelod y Pwll bydd y Tywysydd Glofa yn mynd â chi ar daith gyffrous drwy ran o'r hen bwll. Bydd y daith yn para tua 45- 60 munud.

Does dim rhaid i chi fynd danddaear. Pan fyddwch chi danddaear rhaid i chi aros gyda'r Tywysydd Glofa a'r grŵp tan ddiwedd y daith.



# Y Daith Danddaear

Bydd y to yn isel a'r lle yn dywyll mewn rhannau o'r daith.
Byddwch chi'n clywed sŵn y gloch a'r system gyfathrebu.

Bydd y tywysydd Glofa yn rhoi cyfle i chi brofi tywyllwch llwyr drwy ofyn i bawb droi eu lampau i ffwrdd.



# Llwybr y Dram

**Nôl ar yr wyneb, byddwch chi'n dilyn Llwybr y Dram yn ôl i'r Lamprwm.**

**Mae'r llawr fan hyn yn arw ac anwastad.**



# Y Lamprwm

**Dyma lle mae pob lamp yn y pwll yn cael eu cadw a'i gwefru.**

**Byddwch chi'n rhoi'r lampau nôl fan hyn ar ôl y daith.**



# Caneris

Mae caneris yn cael eu cadw yn y Lamprwm. Roedd caneris yn arfer cael eu defnyddio danddaear i rybuddio am nwyon peryglus neu 'damp'.



# Yr Injan Weindio

Fan gallwch chi gyrrwr yr Injan Weindio yn codi a disgyn y Cawell yn y siafft.

Byddwch chi'n clywed sŵn injan drydan fan hyn.



# Gweithdai'r Pwll


Gallwch chi weld Efail y Gof a'r Stablau fan hyn.

Gallwch chi weld a chlywed fideo o'r Gof yn gweithio yn yr Efail.



# Llethr at Brenin Glo a'r Baddondai Pen Pwll

Dringwch y ramp i gyrraedd arddangosfa Brenin Glo: Y Profiad Cloddio a'r Baddondai Pen Pwll.



# Brenin Glo: Y Profiad Cloddio

Taith sain a fideo drwy replica o bwll glo yw Brenin Glo.

Bydd y daith yn para tua 25 munud.






# Brenin Glo: Y Profiad Cloddio

**Gallwch chi adael yr arddangosfa unrhyw bryd. Byddwch chi'n gweld goleuadau'n fflachio ac yn clywed dau ffrwydrad mawr.**

**Gallwch chi fynd i Brenin Glo a'r Daith Danddaear, neu un o'r ddau, neu ddim un o gwbl.**





# Mynedfa'r Baddondai Pen Pwll

Gallwch chi weld yr arddangosfeydd yn y Baddondai Pen Pwll drwy'r drws ar ochr bella'r adeilad.



# Loceri'r Glowyr

Dyma ble mae loceri 'brwnt' hen lowyr Big Pit.

Mae rhai o'r loceri wedi cael eu troi yn gasys arddangos.

Mae sŵn lleisiau wedi recordio yn siarad a chanu ar lefel ganolig fan hyn.



# Y Baddondai Pen Pwll

Mae sŵn lleisiau wedi recordio yn siarad a chanu ar lefel ganolig fan hyn.



# Arddangosfeydd

Yn y Baddondai Pen Pwll mae arddangosfeydd sy'n adrodd stori'r diwydiant glo yng Nghymru, a phobl y diwydiant.

Byddwch chi'n gweld a chlywed arddangosiadau fideo, sain a rhyngweithiol fan hyn.



# Arddangosfeydd

Gallwch chi weld tu fewn a thu allan i fwthyn glöwr, cropian drwy 'hedin', a dysgu am y gymdeithas a dyfodd o gwmpas y diwydiant glo.

Gallwch chi adael yr arddangosfa yn y pen pellaf, ble mae Ffreutur y Glowyr.



# Gadael Big Pit

Ewch i adeilad y Dderbynfa a'r Siop ar waelod yr Amgueddfa.

Dilynwch y grisiau ar y chwith neu'r ramp ar y dde.



# Y Siop a'r Allanfa

Yn y siop gallwch chi brynu:

- cofroddion ac anrhegion ar thema glo
- llyfrau
- aur Clogau a gemwaith arall
- bwyd a diod lleol



# Toiledau

Mae toiledau ar gael ym mhob rhan o'r safle.

- Toiledau Isaf (llawr gwaelod yr Ystafell Aros).
- Toiledau Canol (tu ôl yr Injan Weindio).
- Toiledau Uchaf (yn y Baddondai Pen Pwll).

Dychwelyd i'r Mynegai

Dilynwch y dolenni i ddysgu mwy

# Toiledau Isaf

Mae'r Toileadu Isaf ar lawr gwaelod Ystafell Aros y Daith Danddaear.

Mae ciwbicl anabl yn nhoiledau'r dynion a'r menywod.



# Toiledau Canol

**Mae'r Toiledau Canol yn yr adeilad y tu ôl i'r Injan Weindio.**

**Mae ciwbicl anabl yn nhoiledau'r dynion a'r menywod.**



# Toiledau Uchaf

Mae'r Toiledau Uchaf yn y Baddondai Pen Pwll.

Gallwch chi gyrraedd y toiledau o'r arddangosfa ac o'r Ardal Bicnic.

Mae toiled anabl ar wahân fan hyn.



# Ystafelloedd Addysg

Bydd lleoliad y gweithdy ar amserlen eich ymweliad

- [PlayLab]
- [Ystafell Kearsley]

Dilynwch y dolenni i ddysgu mwy

Dychwelyd i'r Mynegai

# PlayLab

Mae'r Pwll Chwarae ar y lefel canol ar bwys Efail y Gof a'r Stablau.

Mae ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol yn gallu archebu'r ystafell.



# Ystafell Kearsley

Mae Ystafell Kearsley yn y Baddondai Pen Pwll.

Mae ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol yn gallu archebu'r ystafell.



# Llefydd Bwyta

- Ystafell Coity
- Ffreutur y Glowyr
- Coffee Shop

Dychwelyd i'r Mynegai

Dilynwch y dolenni i ddysgu mwy

# Coity Room

**Gallwch chi fwyta eich cinio yn Ystafell Coity. Mae lle i 70 o bobl, a'r cyntaf i'r felin gaiff falu.**

**Gall y lle fod yn swnllyd ar ddiwrnod prysur. Mae croeso i chi gael picnic unrhywle y tu allan.**



# Y Siop Coffi


Mae'r Siop Goffi ar lefel ganol yr Amgueddfa, ac yn gwerthu ychydig o ddiodydd poeth ac oer, teisennau a danteithion.



# Ffreutur y Glowyr

Mae Ffreutur y Glowyr yn y Baddondai Pen Pwll ar lefel uchaf y safle.

Mae'r Ffreutur yn gwerthu ychydig o ddiodydd poeth ac oer, teisennau a danteithion.





# Ymweliadau Rhithiol

Gallwch chi ddefnyddio ein Gweithdai Rhithiol yn y dosbarth, cyn neu ar ôl ymweld, i adrodd stori'r diwydiant glo yng Nghymru, a phobl y diwydiant.

Mae'r gweithdai ar gael am ddim dros Microsoft Teams yn syth i'r dosbarth.



# Gweithdai

**Mae gan Big Pit amrywiaeth o weithdai ac adnoddau i ysgolion.**

Mae rhagor o wybodaeth ar y wefan:

**[https://amgueddfa.cymru/bigpit/addysg/](https://amgueddfa.cymru/bigpit/addysg/)**



AMGUEDDFA CYMRU

# Stori Weledol

Gobeithio byddwch chi'n mwynhau eich ymweliad â Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru!

